

Council

Cofnodion / Minutes

Oherwydd diffyg aelodau yn y cyfarfod gwreiddiol 29ain Mehefin 2021, fe penderfynwyd i gynnal cyfarfod ar-lein ar nos Lun, 5ed Orffennaf 2021

Due to the lack of members at the original meeting on 29th June 2021, it was decided to hold the meeting online on Monday, 5th July 2021

Presennol / Present: Ms Sandra Thomas **ST** (Cadeirydd / Chairperson), Mr Arwyn Jones **AJ** (Is-Cadeirydd / Vice Chairperson), Mr Cenwyn Williams **CW**, Cynghorydd Mr Eric W. Jones (CSYM) **EWJ**, Mrs Lindsay Vaughan **LV**, Cynghorydd Mr Dafydd Roberts (CSYM) **DR**, Mrs Lynn Hervouet (Clerc / Clerk) **LH**.

Ymddiheuriadau / Apologies: Dim / None

Yn absennol / Absent: Dim / None

Aelod o'r cyhoedd / Member of the public: Mrs Nia Hall **NH** (Ysgrifenyddes pwyllgor Y Ganolfan - *Secretary of Y Ganolfan's committee*)

1. Croeso / Welcome

Cadeiriwyd y cyfarfod gan **ST** ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol. / *The meeting was chaired by ST and all present were welcomed.*

2. Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Dim / None

3. Ysgrifenyddes pwyllgor Y Ganolfan / Secretary of Y Ganolfan's committee

Mrs Hall yn derbyn y gwahoddiad i ddod i'r cyfarfod heno i drafod Y Ganolfan. / *Mrs Hall accepts the invitation to attend the meeting tonight to discuss Y Ganolfan.*

Darllenwyd y poster sydd yn hysbysebu am aelodau newydd ar gyfer pwyllgor Y Ganolfan. Mae'r clerc wedi cytuno i rannu y poster ar wefanau cymdeithasol. Bydd angen arddangos y poster mewn mannau cyhoeddus yn y pentref. / *The poster advertising new members for Y Ganolfan's committee was read. The clerk has agreed to share this poster on social media. The poster will need to be displayed in public places in the village.*

Esboniodd **NH** fod tîm o bobl yn mynd o amgylch y pentref yn plannu ac yn chwynnu blodau yn ogystal â thorri'r gwair i gadw'r pentref i edrych yn hardd i'r trigolion lleol yn ogystal â'r ymwelwyr. A ydi hi'n bosib i ni archebu bin gwyrdd ar gyfer Y Ganolfan Gymunedol? / *NH explained that there is a team of people going around the village planting and weeding flowers as well as mowing the grass to keep the village looking*

beautiful for the local residents as well as the visitors. Would it be possible if we can order a green bin for the Community Centre?

Cytunodd y cyngorwyr i'r clerc i archebu drws ffrynt cyfansawdd gwyn newydd ar gyfer Y Ganolfan. Bydd y pres grant a dderbyniwyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer hyn.
/ *The councillors agreed for the clerk to order a new white composite front door for Y Ganolfan. The grant money that Y Ganolfan received will be used for this purpose.*

Diolchwyd a gwahoddir **NH** i ymuno â ni ar ddechrau cyfarfod y mis nesaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gynghorwyr am Y Ganolfan. / *NH was thanked and invited to join us at the beginning of next month's meeting to give councillors an update on Y Ganolfan.*

4. Cofnodion Cyfarfod Diwethaf 25/05/21. / Minutes of last meeting 25/05/2021.

Derbyniwyd y cofnodion 25/05/2021 yn gywir, Cynigwyd gan **ST**, Eiliwyd gan **AJ**.
The minutes 25/05/2021 were confirmed correct, Proposed by ST, Seconded by AJ.

5. Balans ar 01/06/2021. / Balance on 01/06/2021.

Cyfrif Cyfredol "Community" (ar 01/06/2021)		£7,243.73
Cynilo "BMM" (ar 01/06/2021)	-	£ 7,000.03
	=	£14,243.76
<u>Y Ganolfan - Balans yn y banc ar 23/06/2021. / Y Ganolfan Bank balance on 23/06/2021.</u>		
Cyfrif "Community" (ar 23/06/2021)	-	£ 6,854.40
Cynilo "BMM" (ar 23/06/2021)	-	£ 3,319.08
	=	£ 10,173.48

6. Cyllid / Finance

6.1 Biliau sydd wedi ei dalu / *Bills that have been paid*
Dim / *None*

6.2 Biliau iw dalu / *Bills for payment*

£775.00 - Cyflog y clerc (Ebrill, Mai, Mehefin 2021) / *Clerks wages (April, May, June 2021)*

£100.00 - Gwaith gan archwilydd mewnol i archwilio cyfrifon a dogfennau a paratoi adroddiad ar gyfer Archwiliad Allanol & Ffurflen Blynnyddol y Cyngor am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2021. / *Work by internal auditor to audit accounts and documents and preparing a report for the Council's External Audit & Annual Return for the period up to 31 March 2021.*

£14.50 - Adnoddau swyddfa - inc du i'r printar / *Office supplies - black ink for printer*

Cynigwyd gan **CW**, Eiliwyd gan **AJ**. / *Proposed by CW, Seconded by AJ.*

6.3 Taliadau wedi Derbyn / *Payments Received*

Dim / None

6.4 Adroddiad Cyllidol Chwarterol Ebrill - Mehefin 2021. / *Quarterly Financial Report April - June 2021.*

Ebostwyd copi o'r adroddiadau canlynol i pob aelod cyn y cyfarfod. / *A copy of the following reports were emailed to each member before the meeting:*

Adroddiad chwarterol / *Quarterly Report 01/04/2021 - 31/06/2021,*

Adroddiad cyllidol / *Financial Report 01/04/2021 - 31/06/2021,*

Cymharwyd y ffigyrau uchod gyda ffigyrau rhwng 01/04/2020 - 31/06/2020. / *The above figures have been compared with figures between 01/04/2020 - 31/06/2020.*

Trafodwyd y cyfrifon yn ystod y cyfarfod. Derbyniwyd bod y cyfrifon yn gywir a diolchwyd i'r clerc am ei gwaith. / *The accounts were discussed during the meeting. The accounts were accepted as accurate and the clerk was thanked for her work.*

Cynigwyd gan **LV**, Eiliwyd gan **CW**. / *Proposed by LV, Seconded by CW.*

7. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

7.0.1 Cae Chwarae. / *Playing field.*

Mae'r arwyddion canlynol wedi'u harchebu: Dim cŵn, Dim ysmegu, Cadw pellter cymdeithasol. / *The following signs have been ordered: No dogs, No smoking, Keeping social distance.*

Mae angen trwsio y siglenni mawr. / *The large swings need repairing.*

Mae angen diweddarau'r asesiad risg. / *The risk assessment needs updating.*

7.0.2 Cae Pêl Droed / *Playground Football Field*

Mae wal y cae pêldroed wedi'i drwsio. Diolchwyd i **CW** am drefnu i'r gwaith yma gael ei gwblhau. / *The football pitch wall has been repaired. CW was thanked for arranging for this work to be completed.*

Mae'r pennaeth wedi penderfynu nid yw angen y goliau pêldroed bellach. Oes posibil gwerthu'r gôliau yma ynghyd â'r rhwydi newydd? / *The headteacher has decided that the football goals are no longer needed. Can these goal posts be sold along with the new nets?*

Mae chwynnu wedi'i gwblhau o amgylch y cae pêldroed. Yn anffodus, mae yna rai chwyn trwchus yn dal i fod yn ddyfn yn y ddaear. Nid yw yn gallu eu tynnu oherwydd byddent yn niweidio ffeibr y cae pêldroed artiffisial. / *Weeding has been completed around the football pitch. Unfortunately, there are still some thick weeds still deep in the ground. They cannot be removed because they would damage the fibre of the artificial football field.*

Mae angen diweddarau'r asesiad risg. / *The risk assessment needs updating.*

7.0.4 Mandad y banc / *Bank mandate*

Mae'r mandad y banc wedi'i gwblhau, ond yn anffodus mae wedi'i anfon yn dól atom, oherwydd cwblhawyd y ffurflen anghywir. / *The bank mandate has been completed, but unfortunately it has been returned to us, because the wrong form was completed.*

7.0.5 Archwiliad Cyfrifon y Cyngor gan Archwilio Cymru am 2020/2021. / *Audit of the Council Accounts by Audit Wales for 2020/2021.*

Mae'r archwiliad mewnol o gyfrifon wedi'i gwblhau. Darllenwyd yr adroddiad i'r aelodau. Cyflwynodd y Clerc y Ffurflen Flynyddol i'r Cyngor. Yn dilyn trafodaeth cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol ac fe'i llofnodwyd gan y Gadeirydd. / *The internal auditing of accounts has been completed. The report was read to the members. The Clerk submitted the Annual Return to the Council. Following discussion the Annual Return was approved and signed by the Chairperson.*

Diolchwyd i'r clerc am ei gwaith. / *The clerk was thanked for her work.*

7.0.6 Mynediad giat o lôn fawr / *Gate access from the main road*

Darllenwyd y llythyr a derbyniwyd gan ein cyfreithiwr. Mae angen ymateb i egluro nid yw'r Cyngor Cymuned eisiau'r wybodaeth ac iddynt anfon y bil at y perchnogion sydd wedi gofyn am y wybodaeth. / *The letter that we had received from our solicitor was read. A response is needed to explain that the Community Council does not want the information and for them to send the bill to the occupiers that have requested the information.*

7.0.7 Hen adeilad llyfrgell Criccieth / *Criccieth old library building*

Cynhaliwyd cyfarfod ar-lein gydag aelod o staff Age Cymru yr wythnos diwethaf. Adroddodd y Cadeirydd yn ôl i'r aelodau gan ddweud ein bod yn aros i glywed gan y Cyngor Tref Criccieth fel y gallwn symud ymlaen gyda hyn. / *An online meeting was held with a member of staff from Age Cymru last week. The Chairperson reported back to members saying that we are waiting to hear from the Criccieth Town Council so that we can move forward with this.*

7.0.8 Llwybr cyhoeddus 37/001 / *Public footpaths 37/001*

Mae'r toriad gyntaf o llwybrau cyhoeddus wedi'i chwblhau. / *The first cut of public footpaths has been completed.*

7.0.9 Camera cylch cyfyng / *CCTV camera*

Mae'r clerc wedi derbyn galwad ffôn gan y cwmni yn gofyn a oes adeilad / strwythur parhaol yn ogystal â chyflenwad pŵer gan fod angen iddynt wifro'r recordydd yn y lleoliad lle mae'r camera teledu cylch cyfyng yn debygol o gael ei osod. Mae cynghorwyr wedi penderfynu bydd angen ail ystyried y mater yma. / *The clerk has received a phone call from the company asking if there is a permanent building / structure as well as a power supply as they need to wire the recorder at the location where the CCTV camera is likely to be installed. Councillors have decided that this matter will need to be reconsidered.*

7.1.0 Diffibrylydd / Defibrillator

Pwy sydd yn profio hwn ac faint mor aml? Ers sawl blwyddyn mae'r peiriant yma gennym? Efalla bydd angen prynu bateris newydd yn fuan? / *Who's testing this and how often? How many years have we had the machine? Maybe you need to buy new batteries soon?*

7.1.1 Ymddiswyddiad y clerc / Clerk's resignation

Ebostwyd y llythyr ymddiswyddo at yr aelodau cyn y cyfarfod. Derbyniodd y Cadeirydd yr ymddiswyddiad. Bydd angen hysbysebu'r swydd ar gyfer clerc newydd yn fuan. Diolchwyd i'r clerc am ei gwaith yn ystod ei blynnyddoedd yn y swydd. / *The letter of resignation was emailed to members prior to the meeting. The Chairman accepted the resignation. The position for a new clerk will need to be advertised soon. The clerk was thanked for her work during her years in office.*

8. Cynllunio / Planning

8.1.1 Ceisiadau / Applications

HHP/2021/182, Bodowyr, Llangaffo - Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn / *Full application for alterations and extensions at*

Ebostwyd y cais cynllunio uchod at aelodau ac roedd eu hymateb fel a ganlyn: / *The above planning application was emailed to members and their response was as follows: Dim sylw / No comment*

FPL/2021/107, Ffridd Fawr, Brynsiencyn - Cais llawn ar gyfer gosod cwt bugail tymhorol yn / *Full application for the siting of a seasonal shepherd hut at*

Ebostwyd y cais cynllunio uchod at aelodau ac roedd eu hymateb fel a ganlyn: / *The above planning application was emailed to members and their response was as follows: Dim sylw / No comment*

8.1.2 Penderfyniadau / Decisions

Dim / None

9. Gohebiaethau drwy ebyst / Correspondence via emails

Rhestrwyd gohebiaethau yn llawn yn agenda'r cyfarfod. / *Correspondence received was listed in full in the meeting's agenda.*

10. Adroddiadau gan y cynghorwyr sir. / Reports from the county councillors.

10.1 Adroddiad Cynghorydd **EWJ** / Councillor **EWJ** Report

Dim i'w adrodd / *Nothing to report*

10.2 Adroddiad Cynghorydd **DR** / Councillor **DR** Report

Llongyfarchwyd y Cynghorydd Roberts ar gael ei ethol yn Is-Gadeirydd y Cyngor am 2021/2022. / *Councillor Roberts was congratulated on being elected as the Council's Vice-Chairman for 2021/2022.*

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru. Maent wedi derbyn £6.2m yn ychwanegol eleni oherwydd Cofid-19. / *Anglesey County Council has received grants from the Welsh Government. They have received an extra £6.2m this year because of Cofid-19.*

Mae'r gwefan y Cyngor Cymuned wedi'i ddiweddarau. Os mae'r Cyngor Cymuned angen gwefan gwell bydd rhaid i ni fynd at gwmni arall. Diolchwyd Cynghorydd Roberts am ei waith gyda'r gwefan. / *The Community Council website has been updated. If the Community Council needs a better website they will have to go to another company. Councillor Roberts was thanked for his work with the website.*

11. Unrhyw Fater Arall (gyda chaniatad y Cadeirydd) / Any Other Business (with permission from the Chairperson)

ST - Mae'r Cadeirydd yn atgoffa aelodau y byddem yn ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd newydd yng nghyfarfod Medi 2021. / *The Chairperson reminds members that we would be electing a new Chairperson and Vice Chairperson at the September 2021 meeting.*

LH - Fy mod i wedi mynychu cyfarfod rhanbarthol Un Llais Cymru yn ddiweddar. / *I've recently attended the One Voice Wales regional meeting.*

Mae'r cyhoeddiad bod cymeradwyaeth hwyr y cyfrifon blyneddol ar gyfer 2020/2021 wedi'i arddangos ar dudalen y wefan gymdeithasol yn ogystal ag yn ffenestr Y Ganolfan. / *The announcement of the late approval of the annual accounts for 2020/2021 has been displayed on the social website page as well as in Y Ganolfan's window.*

Mae'r hysbyseb ar gyfer aelodau newydd i'r Cyngor Cymuned yn cael ei arddangos ar dudalen y wefan gymdeithasol yn ogystal ag yn ffenestr Y Ganolfan ac yn Swyddfa'r Post. / *The advertisement for new members of the Community Council is displayed on the social website page as well as in Y Ganolfan's window and at the Post Office.*

Nid oedd gan aelodau eraill dim i'w adrodd. / *Other members had nothing to report.*

13. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting

13.1 Nos Fawrth, 27/07/2021 am 6.30y.h. ar-lein.

Tuesday Evening, 27/07/2021 at 6.30pm online.

13.2 Diolchodd yr Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clwyd y cyfarfod am 8.45y.h.. / *The Chairperson thanked members for attending the meeting. Meeting closed at 8.45pm.*